“Gwneler dy ewyllys, ar y ddaear fel yn y nef.” **(Mathew 6:10)**

Dyma’r trydydd cais yng Ngweddi’r Arglwydd. Mae’n dangos awydd i gadarnhau ac i ildio i Dduw. Mae’n dangos awydd i wybod ewyllys Duw er mwyn cyd-fynd ag ef, ac awydd i weld eraill yn gwneud yr un modd.

Ewyllys Duw

Yn gyntaf mae ewyllys Duw yn golygu’r hyn y mae Duw wedi dweud wrthym i’w wneud. Mae’r Beibl yn cynnwys ei Gyfraith a’i addewidion sydd yn fynegiant o’i ewyllys datguddiedig. Mae pechod dyn yn peri iddo anufuddhau i ewyllys da Duw ar ei gyfer, ac mae hynny’n siŵr o ddifetha’i fywyd yn y pendraw.

Yn y nef mae ufudd-dod perffaith i Dduw gan yr angylion a’r bodau nefol yn ogystal â chan y saint sydd wedi’n blaenori. Enghraifft o hyn ydy’r ceriwbiaid yng ngweledigaeth Eseciel (1.10) o’r cerbyd-orsedd. Roedd gan bob ceriwb bedwar wyneb, ac roedd gan y cerbyd olwynion oddi mewn i olwynion, er mwyn i’r gyrwyr allu newid cyfeiriad ar amrant, yn ôl ewyllys Duw.

Gall ewyllys Duw yn ei arweiniad penodol i ni fod yn fwy anodd i’w ddirnad a’i dderbyn. Mae’r sawl sydd yn yngan y geiriau hyn yn barod i ildio’i ewyllys ei hun i ewyllys y Tad nefol. Yr esiampl orau o hyn yw Iesu ei hunan yn Gesthemane: **“‘Abba! Dad!’ meddai, ‘y mae popeth yn bosibl i ti. Cymer y cwpan hwn oddi wrthyf. Eithr nid yr hyn a fynnaf fi, ond yr hyn a fynni di”** (Marc 14:36).

Doethineb a chariad

Gall y Cristion weddïo fel y gwnaeth Iesu, oherwydd ei fod yn credu yn noethineb a chariad digyfnewid Duw.

Pan fydd angen arweiniad ar fater arnom, fe awn i gysylltu â rhyw arbenigwr neu’i gilydd fel y meddyg neu’r cyfreithiwr o bosibl. Ar ôl sôn am ein problem, bydd y person yn cynnig arweiniad i ni yn ôl ei arbenigedd, ac fel arfer byddwn yn barod i dderbyn ei arweiniad.

Mae hanes am Richard Cameron, cyfamodwr Albanaidd, yn cael ei ladd; torrwyd ei ben a’i ddwylo a’u gyrru at ei dad, oedd hefyd mewn carchar. Ar ôl nabod pen a dwylo’i fab a’u cusanu, dyma’i dad yn dweud: *“Yr Arglwydd sydd yn hyn. Da yw ewyllys yr Arglwydd, na all wneud drwg i mi na’m heiddo, ond a barodd i ddaioni a thrugaredd ein dilyn holl ddyddiau ein bywyd.”* Dyna ddyn oedd wir yn ildio i ewyllys Duw ac yn ymddiried yn llwyr yn noethineb y nef. Mae gweddïo hyn o ddifrif yn golygu credu mai Duw sy’n gwybod orau, ac nid ni.

Cymorth mawr arall i dderbyn ewyllys Duw mewn amgylchiadau anodd bywyd yw gwybod am ei gariad. Mae pob un sydd wedi edrych trwy ffydd ar groes Iesu Grist wedi profi cariad rhyfeddol Duw tuag ato. Mae'r gair yn dweud wrthym na all dim ein tynnu o afael cariadus ein Duw:
"Yr wyf yn gwbl sicr na all nac angau nac einioes, nac angylion na thywysogaethau, na'r presennol na'r dyfodol, na grymusterau nac uchelderau na dyfnderau, na dim arall a grewyd, ein gwahanu ni oddi wrth gariad Duw yng Nghrist Iesu ein Harglwydd" (Rhuf. 8:38-39).

Ufudd-dod

Mae gweddïo yn ôl y geiriau hyn, felly, yn dangos awydd i ufuddhau i Dduw. Dyna'r unig ymateb addas i rywun sydd wedi profi cariad Duw ac sy'n proffesu cariad ato: **"Pwy bynnag y mae fy ngorchmynion i ganddo, ac sy'n eu cadw hwy, hwnnw yw'r un sy'n fy ngharu i"** (Ioan 14:21).
Hefyd yn y weddi hon yr ydym yn dymuno ufuddhau yn llwyr, yn galonnog ac yn syth i Dduw. Hanner ufudd-dod roes y brenin Saul, ac fe gostiodd yn ddrud iddo: **"Gwell gwrando nag aberth, ac ufudd-dod na braster hyrddod… Am i ti wrthod gair yr Arglwydd, gwrthododd ef di fel brenin"** (1Sam. 15:22,23).

Mae crynodeb Iesu o ran gyntaf y Deg Gorchymyn yn dangos bod Duw yn disgwyl ufudd-dod llwyr, calonnog oddi wrth y person cyfan:
"'Câr yr Arglwydd dy Dduw â'th holl galon ac â'th holl enaid ac â'th holl feddwl.'"

Efallai mai Abraham yw'r enghraifft orau o ufudd-dod parod i ewyllys Duw, er fod hynny'n anodd iawn, wrth iddo fynd i Moreia i aberthu Isaac ei unig fab:
"'Cymer dy fab, dy unig fab Isaac, sy'n annwyl gennyt, a dos i wlad Moreia, ac offryma ef yno yn boethoffrwm ar y mynydd a ddangosaf iti.' Felly cododd Abraham yn fore, cyfrwyodd ei asyn, a chymryd dau lanc gydag ef, a'i fab Isaac" (Gen. 22:2-3).

Boed i'r myfyrdod byr hwn ein cadw rhag dweud y geiriau heb ystyried arwyddocâd ein gweddi.